# Cysylltu a Ffynnu (Cam 1): Cwestiynau'r Mynegiad o Ddiddordeb

Yn y ddogfen hon, cewch fanylion ar y ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb sef y cam cyntaf er mwyn gwneud cais i'r gronfa Cysylltu a Ffynnu.

Os na allwch gael gafael ar y ffurflen ar-lein neu os bydd angen rhagor o gymorth arnoch i wneud eich cais e-bostiwch grantiau@celf.cymru.

## Cyrchu'r Porth

Cewch ddod o hyd i'r ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb ar ein porth ymgeisio ar-lein. Bydd angen cyfrif gan y sefydliad 'lletywr' ar gyfer ein porth er mwyn cyrchu'r ffurflen. Gallwch gofrestru yma os nad ydych wedi gwneud cais i ni o'r blaen.

Os ydy'ch sefydliad wedi gwneud cais i ni o'r blaen ond nad ydych yn siŵr a oes gennych gyfrif porth, cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru a gallwn wirio. Efallai y bydd angen 'cod adfer' arnoch os ydych wedi gwneud cais am arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn y gorffennol ond heb ddefnyddio ein porth.

**Sicrhewch eich bod yn cofrestru mewn da bryd cyn y dymunwch wneud cais**. Gall gymryd hyd at bum diwrnod gwaith i sefydliadau newydd gael eu cofrestru ar ein system.

## Porth – Gweinyddu

Ar ôl i chi gyrchu'r porth, gofynnwn ichi adolygu'r adran **Gweinyddu** eich cyfrif a sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys: rheoli pobl gyswllt, manylion y sefydliad, dogfennau llywodraethu, manylion banc a chydraddoldebau. Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r adrannau yma'n gyntaf, gan y bydd ein ffurflenni ar-lein yn ceisio 'chwilio' am y wybodaeth yma.

## Porth – Grantiau

Mae'r ffurflen **Cysylltu a Ffynnu**: **Mynegiad o Ddiddordeb** i'w canfod o dan **Dechrau Cais Newydd** yn adran **Grantiau'r** porth.

Ar ôl i chi ddechrau ffurflen, fe welwch hi o dan Parhau â Chais yn adran Grantiau'r porth.

# Beth mae'r Mynegiad o Ddiddordeb yn ei gynnwys?

Isod fe welwch fanylion ar bob adran o'r ffurflen ar-lein, gan gynnwys uchafswm nodau (lle yn briodol). Rydym wedi darparu cymaint o fanylion ag y gallwn i'ch galluogi i gynllunio'ch cyflwyniad. Nodwch mai dim ond ceisiadau a gyflwynir trwy'r porth y gallwn eu derbyn.

## Croeso

- Cam 1 ar gyfer ceisio am grant Cysylltu a Ffynnu yw'r Mynegiad o Ddiddordeb. Bydd rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb os ydych yn meddwl gwneud cais llawn i'r gronfa. Os ydy'ch Mynegiad o Ddiddordeb yn llwyddo, cewch wahoddiad i wneud cais i Gam 2.
- Ceisiwch fod mor glir â phosibl am eich syniad a'r effaith bosibl y bydd yn ei gael. Rydym yn deall efallai nad ydych chi'n gwybod yr holl fanylion yn llawn ond ceisiwch roi'r amcangyfrif gorau. Mewn rhai achosion efallai y byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen mwy o wybodaeth arnom.
- Os ydych chi yn dal neu wedi derbyn cyllid Cysylltu & Fynnu ac eisiau gwneud cais am y cam nesaf, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dweud wrthym eich dysgu ac effaith y cam cyntaf ac esboniwch pam ei bod hi'n bwysig dal ati.
- Yn y cwestiynau, pan gyfeiriwn atoch 'chi' ac 'eich', rydym yn siarad am y gydweithfa sy'n rhan o'r prosiect.
- At ddibenion gweinyddol, bydd angen sefydliad cymwys i fod yn 'lletywr' i gyflwyno'r cais a rheoli'r cyllid ar ran cydweithfa'r prosiect. Nid oes disgwyl i'r sefydliad hwn fod yn brif ysgogydd y prosiect (rydym yn croesawu enghreifftiau lle mai artistiaid a gweithwyr proffesiynol creadigol sy'n arwain y gydweithfa sy'n cyflwyno'r gweithgaredd).
- Ar ôl i chi gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb, byddwn yn cysylltu â chi o fewn 6 wythnos o'r dyddiad cau i roi gwybod i chi a hoffem eich gwahodd i wneud cais llawn i Gam 2. Mae'r dyddiadau cau ar gael ar ein gwefan.
- Bydd ein penderfyniadau cyllido yn cael eu llywio gan unrhyw ganllawiau, polisïau neu gyfyngiadau COVID-19 a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n gymwys ar y pryd.
- Gallwch ddod o hyd i restr o grantiau Cysylltu a Ffynnu a ddyfarnwyd mewn rowndiau blaenorol yma .

Cyn mynd ymhellach, sicrhewch eich bod wedi cwblhau'r adran 'Gweinyddu' o'ch cyfrif, megis Manylion Eich Sefydliad a Manylion Banc.

## 1. Gwiriad cyn cais

Mae'r adran yma yn cynnwys manylion ar ein system ar-lein. Er enghraifft, mae'r system yn cyfri nodau (characters) sy'n cynnwys bylchau, ac nid geiriau. Cadwch hyn mewn cof wrth i chi ysgrifennu'ch atebion i bob cwestiwn.

Byddwn hefyd yn gofyn ichi gadarnhau bod adran **Gweinydd**u eich cyfrif yn gyfoes â'r wybodaeth ddiweddaraf am eich sefydliad.

## 2. Cysylltu â chi

Yn yr adran hon dywedwch wrthym pwy yw'r bobl orau i gysylltu ynglŷn â'r cais.

Gofynnwn am dair set o fanylion cyswllt:

- Prif Gyswllt y cais
- eich Cadeirydd neu unigolyn cyfatebol
- os mai'r un unigolyn yw eich Cadeirydd a'ch Prif Gyswllt, rhowch fanylion cyswllt unigolyn arall o'ch sefydliad.

Nodwch na all cyfeiriadau e-bost pob cyswllt fod yr un peth, megis cyfeiriad cyffredinol y cwmni.

Y **Prif Gyswll**t yw'r unigolyn y byddwn yn cysylltu ag ef ynghylch pob agwedd ar eich cais. Rhaid bod ganddynt awdurdod eich sefydliad i lofnodi a chymeradwyo dogfennau ac ateb unrhyw ymholiadau a all fod gennym. Bydd eich **Prif Gyswllt** yn gyfrifol am anfon y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnom er mwyn ymdrin ag unrhyw amodau penodol a roddir ar y grant, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau interim wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Bydd hefyd yn gyfrifol am anfon adroddiad cwblhau atom pan fydd y prosiect wedi ei orffen.

Defnyddiwch y chwyddwydr er mwyn chwilio trwy eich cysylltiadau. Sicrhewch eich bod wedi ychwanegu'r cyswllt priodol o dan Rheoli Pobl Gyswllt yn yr adran Gweinyddu eich cyfrif er mwyn iddo ymddangos yma.

Er mwyn ychwanegu **Cadeirydd/Cywerth** eich sefydliad, bydd angen i chi ddefnyddio'r chwyddwydr eto. Os nad yw'r **Cadeirydd/Cywerth** yn ymddangos, sicrhewch eich bod wedi cynnwys y wybodaeth yma yn y maes priodol o dan **Manylion y Sefydliad** yn yr adran **Gweinyddu**.

Gofynnwn i chi gadarnhau os ydych chi neu unrhyw aelodau o'ch sefydliad/ grŵp yn gyflogedig gan, neu gyda chysylltiadau teuluol agos gydag unrhyw sy'n gyflogedig gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Os oes, rhowch fanylion.

Gofynnwn i chi hefyd i nodi pa iaith hoffech chi i ni gysylltu â chi ynglŷn â'r cais (Cymraeg neu Saesneg). Bydd pob cyfathrebiad ynglŷn â'r cais, gan gynnwys y canlyniad yn yr iaith rydych yn dewis yma.

Ar ddiwedd y dudalen, mae gofyn i chi ddewis eich **manylion banc**. Bydd angen i chi ddefnyddio'r chwyddwydr unwaith eto. Sicrhewch eich bod wedi ychwanegu'r wybodaeth yma, gan gynnwys uwchlwytho tystiolaeth o dan **Manylion Banc** yn yr adran **Gweinyddu**. Mae angen y wybodaeth hon arnom fel y gallwn wirio manylion eich cyfrif a'ch cymhwysedd.

## 3. Dywedwch wrthym am eich prosiect

Yn yr adran yma, dywedwch wrthym:

- Teitl y prosiect
- Dyddiad dechrau a gorffen disgwyliedig y prosiect – defnyddiwch y calendr er mwyn chwilio dyddiadau.
- Faint ydych chi'n rhagweld y bydd costau'r prosiect?
- Faint ydych chi'n rhagweld y byddwch yn ymgeisio amdano? (heb gynnwys costau mynediad ychwanegol)
- Unrhyw gostau mynediad ychwanegol. **Os llwyddwch, gallwn helpu i dalu costau cymorth hygyrchedd i chi neu unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol ar y prosiect fel talu am gostau cyfieithydd Arwyddeg, gweithwyr cefnogi neu offer neu feddalwedd arbenigol.**

Rydym yn deall efallai nad ydych chi'n gwybod yr holl fanylion yn llawn ond ceisiwch roi'r amcangyfrif gorau.

Nodwch fod angen dyddiad gorffen er mwyn prosesu eich cais, ond os byddwch yn llwyddiannus byddwn yn hapus i drafod diwygio'r dyddiad, os oes angen, unwaith y bydd y prosiect ar waith.

Cofiwch na allwn ariannu gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd, nac unrhyw gostau a dalwyd gennych neu rydych wedi cytuno i'w talu. Dylai dyddiad dechrau'r prosiect fod o'r adeg y disgwyliwch dalu costau.

## 4. Cynnig y prosiect

**A ydych wedi derbyn cyllid Cysylltu a Ffynnu blaenorol?** (Dewiswch un)

☐ Ydyn ☐ Nac ydyn

**Os ydych, a yw'r prosiect hwn yn barhad neu'n ddatblygiad o'r rhaglen weithgaredd honno?** (Dewiswch un)

☐ Ydy ☐ Nac ydy

**Pa flaenoriaethau Cysylltu & Ffynnu y mae eich cynnig yn mynd i'r afael ag ef?**
Cewch ddewis mwy nag un opsiwn.

- [ ] Cynnwys ac adlewyrchu creadigrwydd pobl F/fyddar, anabl a niwroamrywiol
- [ ] Cynnwys pobl a chymunedau sy'n amrywiol yn ethnig a diwylliannol
- [ ] Cefnogi'r sector i ymateb, addasu ac arallgyfeirio i ymateb i heriau newydd, nawr ac yn y dyfodol
- [ ] Ffocws ar greu cyfleoedd newydd i'r Gymraeg
- [ ] Cynnwys ac ymgysylltu hefo unigolion a chymunedau sydd yn profi ac yn byw mewn anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd
- [ ] Ymateb mewn ffordd arloesol, ddychmygus ac ystyrlon i'r Argyfwng Hinsawdd

**Beth yw eich cynnig prosiect? Sut mae'n arloesol ac yn drawsnewidiol a beth ydych chi am ei gyflawni?** Uchafswm nodau: 3,000.

| |
|---|
| |

## 5. Y Gydweithfa

**Dywedwch wrthym am y gydweithfa - pwy ydych chi a beth yw'r amcanion a rennir? Pam ydych chi yn y sefyllfa orau i gyflawni'r prosiect hwn?** Uchafswm nodau: 900.

| |
|---|
| |

## 6. Effaith

**Dywedwch wrthym am effaith bosibl eich prosiect a sut y bydd yn ein cefnogi ni i gyflawni ein blaenoriaethau?** Uchafswm nodau: 1200.

| |
|---|
| |

## 7. Ymgysylltu

**Sut fydd y buddiolwyr yn cymryd rhan?** Uchafswm nodau: 600.

| |
|---|
| |

## 8. Lleoliad y prosiect

**Codau Post**

Nodwch y cod/au post lle y bydd eich gweithgarwch arfaethedig yn digwydd. Os bydd eich gweithgarwch arfaethedig yn digwydd mewn sawl lle, gallwch roi hyd at 20 cod post.

Os mai prosiect digidol ydyw'n bennaf, nodwch leoliad y sefydliadau a'r artistiaid hynny sydd ynghlwm wrth y prosiect.

**Awdurdodau Lleol**

Nodwch pa gyfran o'r gweithgarwch arfaethedig sy'n digwydd yn yr ardaloedd Awdurdod Lleol a enwir. Efallai y bydd eich prosiect yn digwydd mewn un Awdurdod Lleol yn unig, neu efallai y bydd yn cwmpasu pum Awdurdod Lleol. Amcangyfrifwch y ganran ar gyfer pob ardal. Rhaid i'r cyfanswm adio i fyny i 100%. Os bydd cyfran o'ch gwaith yn digwydd y tu allan i Gymru, nodwch hyn yn yr opsiwn Y Tu Allan i Gymru neu Y Tu Allan i'r DU.

## 9. Atodiadau

Dylech uwchlwytho gyllideb ddrafft yn dangos costau disgwyliedig eich prosiect. Gallwch ddefnyddio unrhyw un o'r mathau o ffeil canlynol ar gyfer hyn: Word, Excel neu PDF. Nid oes rhaid i hwn fod ar ein templed, ond os hoffech ei ddefnyddio mae ar gael yma.

Mae gwybodaeth pellach am costau prosiect ar gael yn ein Canllawiau Ariannu'r Loteri Cenedlaethol.

Rydym yn argymell gwirio bod y costau yn eich cyllideb (y swm y gwnaed cais amdano a chyfanswm costau'r prosiect) yr un fath ag yn Adran 3 y ffurflen.

## 10. Datganiad

**Darllenwch y datganiad yn ofalus**.

Yn y rhan hon o'r ffurflen gais, rydym yn gofyn i chi ddarllen peth gwybodaeth bwysig am ein cyfrifoldebau o ran y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'n bwysig eich bod yn deall sut y bydd y wybodaeth a roddir gennych yn cael ei defnyddio a'i chadw gennym. Mae angen i chi wybod beth i'w wneud os credwch fod unrhyw wybodaeth sydd gennych yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol.

**Yna gofynnwn i chi gadarnhau sawl gosodiad fel rhan o'r datganiad**. Drwy dicio'r blwch rydych yn llofnodi'r ffurflen gais yn electronig ar ran eich sefydliad a'r gydweithfa.

**Pan fyddwch chi'n barod, gallwch chi gyflwyno'ch Mynegiad o Ddiddordeb.**

Ar ôl gwasgu **Cyflwyno** fe ddylech weld eich cais wedi rhestru o dan **Ceisiadau a gyflwynwyd** yn adran **Grantiau** eich cyfrif. Cewch hefyd gadarnhad drwy e-bost.

## Cysylltu â ni

Rydym wedi ceisio gwneud y broses gwneud cais a'r canllawiau mor syml a chlir â phosibl, ond os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y broses neu os bydd angen rhagor o gyngor arnoch, cofiwch gysylltu.

Os bydd gennych ymholiad technegol, cysylltwch â'n Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth drwy e-bostio grantiau@celf.cymru neu ffoniwch 03301 242733 a dewis opsiwn 1, yna opsiwn 1.

Os hoffech drafod eich prosiect yn fanylach, cysylltwch â'n Swyddogion Datblygu drwy e-bostio datblygu@celf.cymru neu ffoniwch 03301 242733 a dewis opsiwn 1, yna opsiwn 4.

03301 242733

9.00am — 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Iau
9.00am — 4.30pm ar ddydd Gwener

www.celf.cymru/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

@Arts_Wales_

celfcymruarts